**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-S24
Ein cyf/Our ref CS/00187/14

William Powell AM
Chair Petitions committee

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

28 Chwefror 2014

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Ionawr parthed deiseb gan Owain Arfon Jones ar arwyddion dwyieithog. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i roi sylwadau fel rhan o ystyriaeth y Pwyllgor.

Mae'r ddeiseb yn galw am y Bil Cynllunio (Cymru) i gynnwys gofyniad fod arwyddion ar bob adeilad newydd sy'n agored I'r cyhoedd yn ddwyieithog. Nid wyf yn gallu cefnogi'r ddeiseb am ei fod yn gofyn am gynnwys mater o bolisi y tu allan i gymhwysedd cynllunio yn y Bil Cynllunio (Cymru).

Pwrpas Bil Cynllunio (Cymru) yw diwygio'r fframwaith ddeddfwriaethol ar gyfer gweithredu y system gynllunio yng Nghymru. Nid yw'r Bil Cynllunio (Cymru) yn cynnwys polisi, sy'n parhau i fod â'i ganolbwynt ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol. Mae canllawiau yn bodoli eisoes yn ymwneud â arwyddion a hysbysebion, cyn belled y maen nhw'n faterion cynllunio.

Mae deddfwriaeth yn galluogi'r system Gynllunio i gyfyngu a rheoli arddangos arwyddion a hysbysebion ar sail mwynder a diogelwch cyhoeddus. Ceir canllawiau cynllunio ar y materion hyn yn Nodyn Cyngor Technegol 7: Rheoli Hysbysebion Awyr Agored (1996).

Nid yw'r Iaith sy'n ymddangos ar arwyddion yn fater sy'n destun rheolaeth Cynllunio mewn deddfwriaeth; ni fyddai unrhyw bolisi felly yn gadarn. Fodd bynnag, mae Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a'r Gymraeg (2013) yn dynodi bod arwyddion dwyieithog yn un modd o hybu diwylliant unigryw Cymru. Gall awdurdodau cynllunio lleol hyrwyddo arwyddion dwyieithog ac enwau strydoedd Cymraeg yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau safonau iaith arfaethedig sy'n cynnwys rhai yn ymwneud â arwyddion. Mae'r safonau hyn, i ddechrau, yn ymrwymo Gweinidogion Cymru, awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol.

Yn gywir

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration